

# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Bethan Roberts**

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: [CyngorLlandygai@ogwen.org](mailto:CyngorLlandygai@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth  
**Nos Iau 20 Chwefror 2020 am 18.30**

## **PRESENNOL:**

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Mary Hayes

Y Cynghorydd Richard Fraser-Williams

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce

Y Cynghorydd Jacob Milner

Y Cynghorydd Huw P Jones

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Mair Leverett

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Lowri Jones

**1. Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Iwan Hywel.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Gwen Griffith a Gabrielle Wyn.

## **2. Cofnodion**

**Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2020.

## **3. Materion yn codi o'r cofnodion**

**3.1** Lloches bws yn mynedfa pentref Llandygai – Y Cyng. Richard Fraser-Williams yn y broses o gael dyfynbrisiau gan contractwyr eraill ar gyfer cwblhau'r gwaith, ond yn cael trafferth cael contractwr lleol. Cyng. Dafydd Owen wedi holi Cyngor Gwynedd a Sian Gwenllian AS os oes grantiau ar gael i helpu gyda'r costau. Y Clerc i cysylltu gyda Clerc Cyngor Cymuned Beddgelert.

**3.2** Problemau gyda rhai o'r goleuadau stryd o fewn yr ardal. Y Clerc a Cyng. Dafydd Owen wedi cysylltu eisoes gyda Cyngor Gwynedd, ond dim ymateb hyd yn hyn. Cytunwyd y byddai Cyng. Iwan Hywel a Cyng. Dafydd Owen yn ymweld a'r safleoedd ac i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

**3.3** Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig – nid yw'r Cyngor yn hapus gyda'r cynllun gan Cyngor Gwynedd, ac mae'r mater nawr yn un difrifol gyda nifer y plant yn cerdded i'r ysgol yn cynyddu, a bywydau mewn perygl. Y Clerc wedi trefnu ymweliad ar y safle gyda Cyng. Richard Fraser-Williams, Cyng. Gwen Griffith ac Iwan ap Trefor, Cyngor Gwynedd – y cyfarfod i'w gael ei gynnal ar y 6ed o Fawrth, 2020. Cynghorwyr i adrodd yn ol ar y mater yn y cyfarfod nesaf.

- 3.4 Ciciwr Calon Tregarth - y Clerc wedi archebu 3 arwydd – 1 arwydd wedi cael ei gosod ger y Ganolfan. Nodwyd Cyng. Dafydd Owen a Cyng. Huw Jones eu bod yn edrych am safleoedd addas ar gyfer y ddau arwydd arall.
- 3.5 Ciciwr Calon Neuadd Talgai – adroddwyd fod y Clerc wedi danfon cynllun at y Swyddog Cadwraeth yng Nghyngor Gwynedd, ac wedi derbyn cadarnhad ni fydd angen caniatad adeilad rhestredig i gwblhau'r gwaith. Y Clerc i fynd ymlaen i drefnu gyda Tomos Hughes, Elusen Achub Calon y Dyffryn.
- 3.6 Arwyddion Ciciwr Calon Mynydd Llandygai – Cyng. Richard Fraser-Williams wedi derbyn dyfynbrisiau ar gyfer arwyddion tebyg i rhai yn Nhregarth, ond angen cadarnhad o gyfeiriad y safle cyn mynd ymlaen i archebu.
- 3.7 Adroddwyd bod cyflwr Eglwys St Ann's yn warthus, bod yno goed yn tyfu drwy'r adeilad ac yn y tŵr. Y Clerc wedi cysylltu gyda'r adran Iechyd a Diogelwch yn Cyngor Gwynedd. Dim ymateb hyd yn hyn. Mae'r coed ochr uchaf i'r giat dal yn gwyro dros y ffordd. Y Clerc i cysylltu gyda'r adran priffyrdd unwaith eto.
- 3.8 Is-bwyllgor Llwybrau a Ffesydd – cynhaliwyd cyfarfod yr Is-bwyllgor ar y 28 Ionawr 2020. Cytunwyd y byddai'r contractwr presennol yn gael ei benodi i gwblhau'r gwaith eto y flwyddyn nesaf. Y Clerc i ceisio cael copi o yswiriant y contractwr ac unrhyw is-contractwyr sydd yn ymgymryd y gwaith.
- 3.9 Llecyn Tir, Bont Twr – Cytunwyd y byddai Cyng. Richard Fraser-Williams yn cyfarfod gyda'r Clerc yr wythnos nesaf i edrych ar y ffurflen AP1. Cyng. Dafydd Roberts i ddanfon manylion swyddog stadau Welsh Slate i'r Clerc.

#### 4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Chwefror 2020'

**Cyflwynwyd:** Ebost gan Peter Roberts – Cyfansoddiad Elusen Canolfan Tregarth – nid yw'n bosib i'r Cyngor drefnu i gyfieithu y cyfansoddiad, y Clerc i ddanfon ymlaen manylion cyfieithwyr lleol. Nodwyd fod y Cyngor yn rhoi rhodd ariannol tuag at y Ganolfan yn flynyddol.

**Cyflwynwyd:** Owl Cymru, Elusen Atal Trosedd – Cadarnhawyd cyn y cyfarfod fod yr elusen yn cau ym mis Mawrth oherwydd diffyg cymorth ariannol.

**Cyflwynwyd:** Ebost Lisa Goodier – Ogwen Catchment Natural Flood Risk Management Project – Penderfynwyd gwahodd Lisa i'r cyfarfod nesaf i drafod y prosiect.

**Cyflwynwyd:** Ciciwr Calon Neuadd Talgai – trafodwyd uchod pwynt 3.5.

#### 5. Gwaith y mis

5.1 Gyli ym Mhentref Llandygai angen ei lanhau – Cyng. Dafydd Owen i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

5.2 Goleuadau Twnel Tywyll – adroddwyd fod yr goleuadau wedi gael ei trwsio.

5.3 Lon Y Wern – dal tyllau ymhob man ar hyd y ffordd, angen sylw brys. Mae'r ffordd yn beryglus iawn i cerddwyr a beicwyr. Y Clerc i danfon ebost arall i'r adran Priffyrdd.

5.4 Problemau gyda gor-yrru a pharcio anghyfrifol tu allan i Ysgol Tregarth – adroddwyd fod warden traffig wedi ymweld ar safle yn ddiweddar.

#### 6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

**Canolfan Cefnfaes** – Cyng. Iwan Hywel i ddanfon cofnodion o'r cyfarfod diwethaf i'r Clerc, a'r Clerc i gylchredeg i'r aelodau.

**Neuadd Goffa Mynydd Llandygai** – Nodwyd Cyng. Mary Hayes fod yr toiledau yn yr neuadd ddim yn cwrdd a manylebau angenrheidiol, ac bydd angen rhai newydd.

## 7. Lwfans Blynyddol

Pawb wedi derbyn ffurflenni ar gyfer y lwfans blynyddol – ffurflen TWE neu'r ffurflen 'optio allan'. Fydd yr lwfans yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, drwy system TWE.

## 8. Rhoddion

Trafodwyd y rhestr rhoddion. Penderfynwyd ar y swm y byddai pob mudiad yn ei dderbyn. (*Datgan diddordeb pan fo angen*)

Llais Ogwan	£350.00
Cylch Meithrin Mynydd Llandygai	£200.00
Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen	£100.00
Clwb Camera Dyffryn Ogwen	£100.00
CFR Dyffryn Ogwen	£250.00
Clwb Pel Droed Ieuenctid Bethesda	£150.00
Clwb Pel Droed Mynydd Llandegai	£200.00
Clwb y Mynydd	£100.00
Nant Ffrancon Brownies	£100.00
Cylch Meithrin Tregarth	£200.00
Siop Ogwen	£150.00

## 9. Llecyn Tir, Bont Twr

Trafodwyd o dan pwynt 3.9 uchod.

## 10. Parcio ger Llyn Ogwen

Dim i'w adrodd.

## 11. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

**11.1** Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Ionawr. Derbyniwyd yr adroddiad.

**11.2** Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd.

## 12. Taliadau

Dim taliadau.

## 13. Penderfyniadau Cynllunio

**C15/0966/16/MG**

Tir ger Pentwmpath, Llandygai  
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer  
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ  
fforddiadwy

**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau  
drosodd

**C18/0571/16/HY**

Llys y Gwynt, Bangor  
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo  
ac heb eu goleuo

**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau  
drosodd

<b>NP3/16/28</b>	Ogwen Falls Snack Bar, Nant Ffrancon, Bethesda Codi monopolyn 15m o uchder wedi'i gladio â choed <b>Penderfyniad:</b> Cais wedi ei gofrestru
<b>C18/0767/25/LL</b>	Coed Wern, Glasinfryn Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety, adeilad derbynfa, a chreu 2 nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio ffyrdd mynediad cysylltiedig a meysydd parcio, tirweddu a gwaith cysylltiedig eraill. <b>Penderfyniad:</b> Holl ymghynghoriadau drosodd
<b>C19/0918/16/LL</b>	Chwarel Goch Isaf, Sling, Tregarth Addasu adeiladau allanol ar gyfer 2 uned wyliau ynghyd a gosod tanc septig newydd a pharcio <b>Penderfyniad:</b> Cais wedi'i gofrestru
<b>C19/0898/16/LL</b>	Bryniau Eithinog, Sling Trosi adeilad allanol yn llety gwyliau a gosod cyfarpar pecyn trin carthion <b>Penderfyniad:</b> Cais wedi'i gofrestru.
<b>C19/0944/16/LL</b>	1 Bryniau Terrace, St Ann's Diwygio amod rhid 2 o ganiatad cynllunio C19/0371/16/LL er mwyn newid codiad to'r estyniad <b>Penderfyniad:</b> Caniatawyd gydag amodau
<b>C19/1208/16/DT</b>	20 Tan y Bwlch, Mynydd Llandygai Codi estyniad unllawr to fflat yng nghefn yr eiddo <b>Penderfyniad:</b> Caniatawyd gydag amodau
<b>C19/1134/16/LL</b>	Tyddyn y Felin, Felin Hen Dymchwel y modurdy presennol a chodi anecs yn ei le <b>Penderfyniad:</b> ar y gweill
<b>C20/0015/16/LL</b>	Hughes Glass & Glazing, Ystad Ddiwydiannol Llandygai

Dymchwel yr adeilad diwydiannol presennol a chodi 5 uned diwydiannol ysgafn newydd ynghyd ac ail leoli'r fynedfa a darparu llecynnau parcio  
**Penderfyniad:** ar y gweill

#### 14. Ceisiadau Cynllunio

**C20/0028/16/DT**

2 Llety Bwgan, Tregarth  
Dymchwel yr estyniadau cefn a chodi estyniad deulawr ynghyd a chodi uchder presennol to gwastad y modurdy  
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

**C15/0966/16/MG**

Tir yn Pentwmpath, Llandygai  
Cais materion a gadwyd yn ol ar gyfercodi 15 ty gan gynnwys 5 dy fforddiadwy, yn dilyn caniatad amlinellol o dan gyfeirnod C09A/0518/16/AM  
**Penderfyniad:**

**C19/1170/13/LL**

Tir yn Fferm Tanysgrafell, Bethesda  
Trosi ac estynnu adeiladau amaethyddol segur i uned wyliau hunan gynhaliol ynghyd a chreu thrac mynediad a ardal parcio cerbydau.  
**Penderfyniad:** Gwrthod oherwydd materion diogelwch priffyrdd phryderon y trigolion lleol.

**C20/0101/16/LL**

Lock Stock Storage Zone 2, Ystad  
Ddiwydiannol Llandygai  
Gosod cynhwysyddion uwchben y rhai presennol ynghyd a grisiau a gantris  
**Penderfyniad:** Cefnogi

**C20/0082/16/LL**

29 Tan y Bwlch, Mynydd Llandygai  
Addasu adeilad allanol i uned wyliau hunan gynhaliol  
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**C20/0059/16/LL**

Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda  
Gosod camerau cylch cyfyng, arwyddion rhybudd a ffensys  
**Penderfyniad:** Cefnogi

**C20/0057/16/LL**

Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda  
Lleoli 4 cynhwysydd dros dro i'w  
defnyddio ynghlwm a'r trac cartio  
newydd

**Penderfyniad:** Cefnogi

**15. Unrhyw fater brys arall**  
Dim.